CYFNODION CYFARFOD CYFFREDIN CUNGOR TREF MACHYNLLETH
Wedi ei cynnal yn Y Plas ar ddydd Llun Gorffennaf 27 2009

Present: Cllrs. D W Davies, B. Dunn; K Hubbard; M Williams; E Hughes; S Rowlands; G Baldwin; G Jenkins.

Also present: J. H. Parsons – Clerc; M Biffin - Ysgrifennyddes

---

5356 CT 27.07.09 **Ymddiheuriadau**

- Cllrs. D Lewis; S Nicholas; G Davies

5357 CT 27.07.09 **Cyflwyniad**

- Doedd dim cyflwyniad

5358 CT 27.07.09 **Cofnodion**

Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan y Cyngor.

- Dywedodd Y Clerc byddai Anne Marie Carty yn ffilmio gweithrediadau y noson I prosiect Prifysgol a mi fydd yn ffilmio y drafodaeth ynglyn a Tesco. Nid oedd bob Cynghorwr eisiau cael ei ffilmio. - **Cytunwyd**

5359 CT 27.07.09 **Busnes Stadurol**

- Doedd dim I drafod.

5360 CT 27.07.09 **Busnes y Maer**

Fe roddodd Y Maer ei adroddiad fel y canlyn:-

- Yn bresennol yn yr OGI I seremoni llythyr Pennal
- Yn bresennol yn cyfarfod Heddlu Dyfed Powys, hefyd yn mynd I fod yn bresennol mewn cyfarfod gyda'r Prif Gwnstabl ar y dydd Gwener gerllaw.
- Perfformio yr agoriad swyddogol o Bwyty'r Plas a dymunodd pob llwyddiant I Helena ac Aled yn ei menter newydd.
- Agor y Carnifal – dymunodd y Maer ddiolch I bawb a oedd wedi gweithio I wneud y Carnifal yn llwyddiant – Cytunodd Cyng Williams a dywedodd bod y band oedd yn arwain y gorymdaith yn ardderchog – Dywedodd Cyng Hughes bod y wal ddringo wedi bod yn llwyddiannus iawn
- Dywedodd Y Maer y byddai yn perfformio y Seremoni I agor yr El Sueno Existe a byddai y Cynghorwyr I gyd yn cael gwahoddiad.
- Dywedodd y Clerc bod y gynt Faer Cyng W.G. Jones wedi cael llawdriniaeth eto, y tro hyn I ddrychu y goes arall, ond yr oedd yn dod ymlaen yn dda ac wedi dychwelyd yn ôl I Fachynlleth – Dymunodd y Cynghorwyr I gyd ei dymuniadau gorau iddo.

5361 CT 27.07.09 **Materion yw Codi**

- Parcio Cerbydau **(5328)** – Yr oedd Cyng Dunn wedi cyfarfod a Wyn Lloyd. Yr oedd Wyn Lloyd wedi gyrru cerbyd I'r parc moduron – maent wedi nodi man I'r parc cerbydau.
- CCTV **(5355)** – Dywedodd Cyng Dunn bod y mater hyn wedi ei drafod amser yn ôl a bod cytundeb cynnal a chadw wedi cael ei gytuno(**5232)**– Gofynnodd Cyng Jenkins am y prisiau – argymellodd Cyng Dunn y

cytundeb “arian”, pris £2170.00 y flwyddyn - Gofynnodd Cyng Baldwin a oedd cwmnioedd eraill yn medru darparu gwasanaeth – awgrymodd y Maer I Cyng Dunn edrych I fewn I hyn ac wedyn mi fyddai’r Maer – Y Dirprwy a Cyng Dunn yn dewis y cwmni ar cytundeg. **Cytunodd** y Cynghorion I gyd. Mae’r ysgrifennyddes yn mynd I gysylltu gyda Petra Evans I weld faint o brês oedd wedi cael ei wario ar gylwadau allan y flwyddyn diwethaf.

- Llwybr Troed Ffordd Forge(**5199**) – llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth CSP – dywedodd Cyng Hughes bod parcio yn achosi prolemmau wrth Stâd Treowain a bod gordyfiant yn y man troi – **cytunwyd** I yrru llythyr I Adrian Jervis I ofyn am y man gael ei dorri’n nôl.
- Croesfan wrth y Co-op **(5345)** – llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Asiantaeth Priffordd Canolfan Cymru – mae’r goeden I gael ei symud.

5362 **Adroddiad y Panel Pwrpas Cyffredin**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

27.07.09

- Dywedodd Cyng Rowlands ei bod wedi siarad gyda’r dyn a ddaru wneud y gwaith o symud y goeden wrth Caffi Maendwyn ac yr oedd yn drist I glywed bod un o’r cynhorwyr wedi cwyno am y gwaith – a na fyddai byth eto yn gwneud gwaith I Gyngor Tref Machynlleth – oedd y dyn ddim yn fodlon dweud pa gynghorwr a oedd wedi cwyno. Gofynnodd Cyng Jenkins os fedrai llythyr gael ei yrru yn canmol y gwaith ac hefyd yn dweud bod barn un cynghorwr ddim yr un fath ar gweddill o’r Cyngor **Cytunwyd**
- Dywedodd Cynghorwr Hughes bod bobl yn gofyn lle oedd y basgedi grog – Dywedwyd bod dim basgedi grog wedi bod yn y dref am rai blynyddoedd oherwydd iechyd a diogelwch wrth roddi dwr iddynt – Dywedodd Cyng DW Davies bod blodau yn cael ei plannu yn y twbiau ar hyn o bryd.

5363 **Adroddiad y Panel Iechyd**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

27.07.09

- Ehangodd Cyng Dunn ar y cyfarfod gyda”CAPP” yn ddiweddar. Yr oedd yn teimlo bod gwasanaeth darpariaeth iechyd y meddwl ddim digon da ac yn gwaethygu..
- Gofynnodd Cyng Jenkins am wlâu nyrsio – Dywedodd Cyng Williams bod
- yn awr gynrychiolwyr o wasanaethau cymdeithasol Powys a mae wedi gwneud yn glir bod angen gweithred ond yr oedd yn teimlo bod pethau yn symud – Dywedodd Cyng Williams bod angen gwlau preswyl oherwydd bod bobl yn haeddu cael ei edrych ar ei hôl yn ei tref ei hun.
- Yr oedd Cyng Rowlands yn pryderu bod neb yn cymeryd lle y staff a oedd yn gadael yn yr ysbyty – **Cytunwyd** I yrru llythyr I David Evans “PLHB”
- Dywedodd Cyng Baldwin bod nhw yn gaddo gwneud rhywbeth ond nid oedd dim yn digwydd

5364 **Adroddiad Panel Cloc y Dref**

CT

- Dywedodd Cyng Jenkins bod pedwar cwmni wedi ei gwahodd I roddi cynnig a ni ddylsai fod yn hir cyn I’r gwaith gychwyn – Diolchodd Cyng Rowlands Cyng Jenkins am ei gwaith called.

27.07.09

5365 **Adroddiad Panel y Plas**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

27.07.09

- Soniodd Cyng Dunn am y Miri Mawr sydd yn cymeryd lle ar Awst 18 yn Machynlleth; ac yr oedd yn gobeithio byddai CTM yn cefnogi hyn.
- Dywedodd Cyng Dunn bod person wedi cysylltu gyda fo gyda golwg o

roddi gwyl “Tolkien” ymlaen

- Dywedodd Cyng Dunn bod y cyngerdd yn Mis Tachwedd wedi ei drefnu a gofynnodd I’r cynghorion I helpu drwy siarad gyda masnachwyr lleol a bobl eraill I feddiannu gwobyron “raffle”

.

5366 CT 27.07.09 **Adroddiad Cyng Sir J.M.Williams**

Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbrthu ac wedi cael ei derbyn.

- Dywedodd Cyng Rowlands bod rhai bobl wedi tynnu sylw at y ffaith bod amser hir I aros I gael trwydded bws – Dywedodd Cyng Williams ei fod yn deallt byddai hen rai yn ddilys tan bod y rhai newydd yn barod.

5367 CT 27.07.09 **Ceisiadau Cynllunio**

- Llythyr o gefnogaeth ar ran Mr a Mrs Jenkins Ysgubor Wen wedi cael ei yrru I Adran Cynllunio CSP
- P2009 0755 – 5 Heol Maengwyn – NEWID IWS
- P2009 0746 – Tesco – to be discussed at the end of the meeting.
- P2009 0177 – 106 Heol Maengwyn – change of use
- P2009 0781 – 27 Bryn y Gog –“ conservatory”
- P2009 0658 – 5 Trem yr Orsedd – estyniad -**caniatâd**
- P2009 0454 – 106 Heol Maengwyn – adeilad rhetredig-**caniatâd**
- P2009 0800 – dinistriad y Neuadd Gymuned – fe ddaru y Cynghorion I gyd ddatgan ei diddordeb.

5368 CT 27.07.09 **Datganiad Cyfrifon**

Mae cofnodion y cyfrifon wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

Date		Chq No	Chq Drawn
30/06/2009	R A Gaskell	5115	£ 120.57
	Technical Services Shropshire - CCTV	5116	£ 135.47
	Mid Wales Signs - Mayors Board	5117	£ 12.00
	Petra Evans - 13 wks	5118	£ 312.00
	Mel Biffin	5119	£ 373.00
	I G Owen	5120	£ 23.72
07/07/2009	R A Gaskell	5121	£ 141.03
14/07/2009	R A Gaskell	5122	£ 130.80
	B£ Architects - replacement Chq	5123	£ 3,501.75
	Inland Revenue	5124	£ 845.41
21/07/2009	R A Gaskell	5125	£ 155.97
21/07/2009	Scottish Power	5126	£ 737.36
	Travis Perkins	5127	£ 59.20
	TOTAL		**£6,548.28**

5369 CT 27.07.09 **Gohebiaethau**

- Ariannu SOS Pentrefi Cyng Dunn yn mynd I yrru am furflen gais
- Pryder Henoed cyfarfod Gorffennaf 30 Clwb Bowlio 2.30pm
- Adolygiad annibynnol o gymorth ariannol I aelodau’r cynnilliad – mae copi called yn cael ei yrru I’r swyddfa.
- Llecyn Agored 15^{h} August yn Neuadd goffa Aldbury Hertfordshire
- Pwyllgor Safonol Powys - goruchwyliaeth gyfrinachol
- El Sueno Existe – rhaglen gwybodaeth
- Pwyllgor Ardal Drefaldwyn – datganiad I’r wasg

- St John Cymru Wales – gofyn am gefnogaeth
- CSP – Ailgylchu – Dywedodd Cyng Dunn ei fod wedi siarad gyda person o Meirionnydd ac oeddynt yn dweud bod ailgyllchu gwastraff bwyd ddim yn ddelfrydol ac mae yn achosi problemmau – Dywedodd Cyng Williams bod raid cael sicrhad bod y gwastraff bwyd yn cael ei hela bob wythnos ac hefyd sut byddai bobl oedd yn byw mewn fflatiau neu I fynu rhes o risiau uchel ymdopi gyda "wheelie bins"
- WAG – ymgynghoriad arfathedig o gymhwysedd deddfwriaethol

5370 CT 27.07.09 **Rhifennau**

- Adroddiad Blynyddol Omwdsman

5371 CT 27.07.09 **Unrhyw fusnes arall**

- Yr oedd Cyng Hughes yn pryderu ynglyn Parcio Yn Treowain a gofynnodd beth oedd wedi digwydd I darn o dîr oedd yn perthyn I Clwb y Golff – Awgrymodd y Clerc I Cyng Hughes ddarparu y cynlluniau or darn tîr a mi fyddai wedyn yn gyrru llythyr I'r Clwb Golff

5372 CT 27.07.09 **Tesco**

Mae'r Cyngor wedi derbyn y Cynlluniau ynglyn a Datblygiad Tesco.

- Dywedodd Cyng Rowlands ei fod yn bwysig, a gofynnodd I'r Cynghorwyr I gyd ymateb a bod yn onest ac agored.
- Fe roddodd y Clerc restr or adroddiadau oedd wedi ei derbyn, a dywedodd na dim ond Cyng Williams, Jenkins a Dunn oedd wedi galw I mewn I weld y cynlluniau. Dywedodd y Clerc ein bod wedi derbyn llawer gwrthwynebiad oddiwrth y preswylwyr..

Ymatebodd y Cynghorion fel y canlyn:-

- Cllr DW Davies – dim problem ynglyn a Tesco ac yr oedd yn teimlo byddai yn dod a mwy o fobl I Machynlleth.
- Cllr Dunn – Yn bersonnol yr oedd ganddo broblemau mawr gyda moeseg cwmniau fel Tesco ac eraill – Yr oedd y Co-op yn archfarchnad Gymuned ac yr oeddynt wedi dangos hynnu yn ei cefnogaeth I brosiects yn y Gymuned lleol – yr oedd yn pryderu bod yr adroddiad I gyd wedi dod allan ar ochr Tesco – yr oedd yn pryderu am y traffig a'r sôn am berygl o "Radon" ac hefyd bod sôn am yr ail gyfnod o'r asesiad amgylcheddol ond doedd dim adroddiad. Er hynnu fel cynghorwr yr oedd raid iddo gefnogi y mwyafrif a mi fyddai yn gwneud hynnu.
- Cllr Hubbard – yn erbyn y datblygiad. Yr oedd yn teimlo bod Co-op a Spar yn ddigon I dref maint Machynlleth. Yr oedd hefyd yn pryderu am y traffig.
- Cllr Williams – ddim yn ffafriol o amryfaen ac yr oedd yn pryderu am y preswylwyr oedd yn byw yn agos at y datblygiad – cytunodd gyda Cyng Dunn ynglyn a'r traffig a'r Radon awgrymodd I ni gael WAG I ddarparu mwy a gwell croesfannau Pelican, dywedodd bod yr atebion oedd wedi ei ysgrifennu yn erbyn y datblygiad ond yr oedd y rhai oedd yn siarad eisiau y datblgiad – Cytunodd gyda Cyng Dunn a mi fyddai yn cefnogi y mwyafrif. Cllr Hughes – yn cytuno gyda Cyng Williams a Dunn ond yr oedd mewn ffafr I'r datblygiad oherwydd mi fyddai yn creu fwy o swyddi
- Cllr Jenkins – yn erbyn y datblygiad – yr oedd wedi gofyn am farn y preswylwyr ac yr oedd ffafr gryf I'r datblygiad. Yr oedd yn pryderu am uchder yr adeilad a mi fyddai'n hoffi awgrymu Tesco I blanu coed I amddiffyn ac I guddio'r tai o flaen y datblygiad. Yr oedd Cyng Jenkins yn pryderu oherwydd mewn cyn gyfarfod gyda Felix Gummer a Ray Thomas

dywedodd Mr Gummer yn bendant na fyddai fferyllfa yn y datblygiad ond yn awr mae y cynllun yn dangos un, yr oedd yn teimlo os yr oeddynt yn anonest yn gynnar ymlaen yn y broses be arall fydden yn mynd yn ôl ar - gofynnodd Cyng Jenkins I lythyr cryf gael ei yrru I Mr Gummer yn gofyn iddo gyfiawnhau hyn Yr oedd Cyng yn teimlo bod Tesco wedi bod yn anonest a bod yn dangos diffyg gonestrwydd .

- Cllr Baldwin – Yn erbyn Tesco ac yn cytuno gyda Cyng Dunn a Jenkins, dywedodd bod y siopau lleol yn pryderu ac yn teimlo efallai fydd raid iddynt gau yn y dyfodol, oherwydd ni fedran nhw gystadlu efo'r prisiau.
- Cllr Rowlands – mewn ffafr gyda'r datblygiad ac yr oedd y mwyafrif yn ei gefnogi, mae'r man ar hyn o bryd yn hyllberth Dywedodd Cyng Rowlands bod ei thâd wedi cefnogi datblygiad Laura Ashley pan oeddynt eisiau dod I'r dref ond mi aeth y datblygiad I Carno. Yr oedd yn teimlo bod Machynlleth wedi colli allan ar gyfle ardderchog ac yr oedd y datblygiad yma yn gyfle arall na ddylai ei golli – mae bobl yn dweund bod Machynlleth yn dref sydd yn darfod
- Dywedodd y Clerc bod raid iddo roddi ateb y Cyngor dref I CSP a mI ddaru y cynghorion bleidleisio i benderfynu ddylsai'r Cyng gefnogi y mwyafrif yn amodol a'r atebion boddhaol I'r materion a godwyd – traffig, Radon, plannu coed, fferyllfa – Cyfnod 2 adroddiad amgylcheddol. Dangosodd y bleidlais 6 Cynghorwr yn ffafrol a 2 yn erbyn